



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

SUT I WNEUD BUSNES GYDA PHRIFYSGOL BANGOR - ARWEINIAD I  
GYFLENWYR

## CYNNWYS

|                                   |    |
|-----------------------------------|----|
| Gwybodaeth am yr arweinlyfr       |    |
| hwn.....                          | 3  |
| Cefndir.....                      | 4  |
| Y Swyddogaeth                     |    |
| Gaffael.....                      | 5  |
| Consortia Prynu.....              | 6  |
| Rheolau a Rheoliadau Caffael..... | 7  |
| Prosesau Caffael.....             | 8  |
| Manylion                          |    |
| cyswllt.....                      | 14 |

## **GWYBODAETH AM YR ARWEINLYFR HWN**

Pwrpas yr arweinlyfr hwn yw rhoi gwell dealltwriaeth am brosesau caffael y brifysgol i gyflenwyr sydd eisiau darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith i'r brifysgol.

Mae'r brifysgol yn cydnabod ac yn croesawu natur amrywiol y gymuned cyflenwi ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda chyflenwyr i ddarparu'r seilwaith a'r gwasanaethau i gefnogi ein myfyrwyr a staff mewn modd cynaliadwy.

Nid yw'r brifysgol yn cadw rhestr o gyflenwyr sydd wedi eu cymeradwyo fel y cyfryw, ond bydd yn cynnal proses gaffael gydymffurfio pan fo angen. Eglurir y broses hon yn fanylach yn yr arweinlyfr hwn.

Mae'r arweinlyfr yn egluro'r canlynol:

- Cefndir byr am y brifysgol a swyddogaeth ei gwasanaeth caffael.
- Rheolau a rheoliadau caffael y mae'n rhaid i'r brifysgol gadw atynt wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
- Sut mae rhoi gwybod i gyflenwyr am gyfleoedd i gyflenwi'r brifysgol.
- Cyngor ac awgrymiadau i gyflenwyr wrth lenwi tendrau.

Mae'r brifysgol yn annog ceisiadau oddi wrth bob math o gyflenwyr e.e. busnesau lleol, cenedlaethol, bach a chanolig, cwmnïau cyfyngedig, busnesau dan berchenogaeth lleiafrifoedd ethnig etc.

Mae'r arweinlyfr hwn at ddibenion cyngor a chanllawiau yn unig. Gan fod galw mawr am fusnes y brifysgol, rhaid i gyflenwyr werthfawrogi na fydd yr arweinlyfr hwn yn gwarantu y byddant yn llwyddo i ennill cytundeb.

## **CEFNDIR**

Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 ac mae ganddi draddodiad hir o ragoriaeth a mynd tu hwnt i ddisgwyliadau o ran safonau academiaidd a phrofiad myfyrwyr. Mae gennym dros 11,000 o fyfyrwyr a thros 650 o staff dysgu mewn 23 o Ysgolion Academaidd, wedi'u rhannu rhwng pum Coleg.

Mae Prifysgol Bangor yn prynu ystod eang o waith, gwasanaethau, nwyddau a chyfleustodau, a'r gwariant yn amrywio o brojectau adeiladau ac atgyweirio mawr i anghenion bychan megis papur swyddfa.

Mae'r brifysgol yn mynnu bod pob pryniant o nwyddau a chaffael gwasanaethau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, a'u bod yn creu buddion nid yn unig i'r brifysgol ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan leihau unrhyw niwed i'r amgylchedd.

Mae'n rhaid i bob pryniant gan y brifysgol gael ei wneud yn unol â'r canlynol:

- Rheoliadau statudol a chyfreithiol;
- Rheoliadau ariannol y brifysgol;
- Strategaeth gaffael y brifysgol; a
- Datganiad Polisi Caffael Cymru.

## **Y SWYDDOGAETH GAFFAEL**

Caffael yw prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith priodol er mwyn eu perchen am y cyfanswm cost gorau posibl i gyflawni anghenion y prynwr o ran ansawdd a maint, amser, a lleoliad. Daw'r caffael ar ffurf prynu, contractio, a thrafod yn uniongyrchol gyda ffynhonnell y cyflenwad drwy gyfrwng dyfynbrisiau neu dendrau cystadleuol. Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol ym Mhrifysgol Bangor yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi'r meysydd canlynol:-

- Strategaeth Gaffael Prifysgol Bangor
- Rheoliadau Ariannol
- Cofrestr Contractau Prifysgol Bangor
- Gweinyddu Rhaglen Cardiau Prynu
- Cysylltu gyda chonsortia prynu allanol/grwpiau cenedlaethol
- Prynu a chael gwared ar nwyddau yn gynaliadwy/moesegol
- Cefnogi ysgolion a thimau gwasanaeth Prifysgol Bangor i sicrhau gwerth am arian ac arferion gorau wrth gael nwyddau a gwasanaethau
- Hybu'r defnydd o offer caffael electronig

Mae Tîm Caffael Corfforaethol yn cefnogi nodau ac amcanion y brifysgol i fod yn sefydliad cryf, hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr.

Mae Prifysgol Bangor yn awyddus i weithio gyda chyflenwyr sy'n canolbwyntio ar ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol ac sy'n fodlon gweithio gyda'r brifysgol i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Gellir gweld polisiau cynaliadwyedd a masnach deg Prifysgol Bangor yn [https://www.bangor.ac.uk/eo/environment/documents/SUSPOL20142015\\_CYM.pdf](https://www.bangor.ac.uk/eo/environment/documents/SUSPOL20142015_CYM.pdf).

## Rheolau a Rheoliadau Caffael

Mae'n ofynnol i staff y brifysgol gynnal unrhyw fusnes masnachol mewn ffordd broffesiynol sy'n:

- rhoi gwerth am arian, hynny yw, nwyddau, gwasanaeth a gwaith o ansawdd am y pris gorau posibl,
- sicrhau y caiff unrhyw risg ei ddileu neu ei leihau lle bo'n bosibl.
- Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae gan y brifysgol bolisiau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau y caiff y broses gaffael orau ei mabwysiadu. .

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybr caffael ar gyfer gofynion heb gontract:

| <b>Gwerth</b>   | <b>Trefn weithredu</b>  |
|---|---|
| Llai na £1,000  | Defnyddio synnwyr cyffredin i sicrhau'r gwerth gorau.   |
| £1,000 - £4,999   | Dylid cael tri dyfynbris o gatalogau neu drwy ymholiadau ffôn. Er nad oes rhaid cael dyfynbrisiau ysgrifenedig, rhaid cadw tystiolaeth o'r dyfynbrisiau a gafwyd. |
| £5,000 - £24,999  | Rhaid cael tri dyfynbris ysgrifenedig.  |
| £25,000 a mwy   | Rhaid dilyn proses dendr ffurfiol.  |
| Trothwyon UE (yn cael eu diweddarau bob yn ail flwyddyn) fel ym mis Ionawr 2016<br>>£164,176 (nwyddau a gwasanaethau)<br>>£4,104,394 (gwaith) | Dilyn proses dendro ffurfiol gyda chymorth Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.  |

### **Contractau cyn tendro (Cytundebau fframwaith)**

Mae Prifysgol Bangor yn gallu defnyddio cytundebau fframwaith a sefydlwyd trwy gonsortia prynu. Mae hyn yn golygu nad oes raid i'r brifysgol hysbysebu tendrau manwl ei hun, ond bydd yn cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i leihau costau caffael. Ceir crynodeb o'r prif gonsortia a ddefnyddir gan y brifysgol yn yr adran nesaf.

Mae llawer o'r cytundebau fframwaith hyn wedi eu gosod mewn pecynnau gwaith bach, ac felly ni ddylid annog cyflenwyr bach i beidio â mynegi diddordeb yn y contractau hyn. Mae'n bosibl hefyd i gyflenwyr bach gydweithio ar gontractau mawr.

## **Consortia prynu**

Mae'r brifysgol yn defnyddio llawer o gontractau a osodir gan gonsortia prynu ac er y gall eu strwythur a'u harbenigeddau wahaniaethu, maent i gyd yn darparu rhagor o werth am arian a lleihau maint y gweinyddu. Dyma'r prif gonsortia a ddefnyddir gan y brifysgol:

### **North Western Universities Purchasing Consortium (NWUPC)**

Mae Prifysgol Bangor yn prynu'r rhan fwyaf o eitemau sy'n seiliedig ar nwyddau o'r consortiwm hwn, megis deunydd ysgrifennu, dodrefn, cyflenwadau labordy etc. Ceir rhagor o wybodaeth yn: <http://www.nwupc.ac.uk>

### **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru (GCC)**

Sefydlwyd Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru (NPS) i alluogi sector cyhoeddus Cymru i gydweithio'n agosach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae'r NPS yn dwyn ynghyd pŵer prynu dros £1bn y sector cyhoeddus, sy'n 20% i 30% o wariant blynyddol Cymru mewn gwariant cyffredin ac ailadroddus. Ceir rhagor o wybodaeth yn: <http://nps.gov.wales/?lang=cy>

### **Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS)**

Gwasanaeth Masnachol y Goron yw'r partner caffael cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y DU. Prif swyddogaeth CCS yw cael y gwerth mwyaf posib am arian gan adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill drwy gaffael a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau. Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://ccs.cabinetoffice.gov.uk>

### **Sefydliad Arlwywyr Prifysgolion (TUCO)**

TUCO yw'r prif gorff aelodaeth broffesiynol ar gyfer arlwywyr 'mewnol' sy'n gweithredu yn y sector addysg uwch ac addysg bellach. Mae TUCO wedi ymrwymo i hyrwyddo dysgu a datblygu timau arlwyyo a lletygarwch, a gweithio i ddarparu safonau, cyngor a gwybodaeth o ansawdd i'r rhai sy'n gweithio yn y sector.

Mae TUCO wedi ymrwymo i hyrwyddo'r agenda iechyd a lles ar ran ei aelodau ac mae ar flaen y gad o ran arferion gorau cynaliadwyedd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn <http://www.tuco.org/>

**Rydym yn annog cyflenwyr i dendro am y cyfleoedd a gyflwynir gan y consortia prynu hyn.**

## **Prosesau Caffael**

### **Cais am ddyfynbris**

Lle bo gan aelodau staff ofynion ond nid oes contract na fframwaith wedi'i sefydlu i ddarparu ar gyfer eu hanghenion, gellir cael dyfynbris ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r tabl ar dudalen 7 fel canllaw. Gall staff ofyn yn uniongyrchol i gyflenwyr am ddyfynbrisiau neu gallant ddefnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu eu gofynion.

### **Mini-gystadlaethau (Cytundebau fframwaith).**

Os ydych yn gyflenwr ar gytundeb fframwaith, efallai y cewch wahoddiad i gymryd rhan mewn ymarfer mini-gystadleuaeth. Cynhelir y rhain naill ai drwy GwerthwchiGymru neu eTender Cymru (Bravo Solutions). Dylech gofrestru ar y gwefannau hyn (am ddim) pan ofynnir ichi wneud hynny.

**GwerthwchiGymru. ([www.sell2wales.gov.uk](http://www.sell2wales.gov.uk))** Mae gwefan GwerthwchiGymru yn ffynhonnell wybodaeth a phorth caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau i ennill contractau gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Caiff yr holl gyfleoedd tendro gyda Phrifysgol Bangor eu hysbysebu ar y wefan hon, ac felly anogir cyflenwyr i gofrestru manylion eu cwmni am ddim fel y gallant dderbyn negeseuon e-bost gyda'r newyddion diweddaraf am gyfleoedd tendro wrth iddynt godi.

### **Gwahoddiad i Dendro**

Rhaid dilyn proses dendro ffurfiol ar gyfer pob gofyniad dros £25,000.

Mae proses dendro yn wahoddiad strwythuredig, ffurfiol i gyflenwyr gyflwyno cais mewn ymateb i hysbyseb am contract i gyflenwi cynnyrch, gwasanaethau neu waith. Mae rhagor o fanylion am y broses dendro ar dudalen 9.

### **Proses Dendro'r Undeb Ewropeaidd**

Caiff yr holl ofynion sydd â gwariant rhagamcanol dros drothwyon yr UE, sydd ar hyn o bryd yn £164,176 am nwyddau a gwasanaethau, a £4,104,394 am waith, eu hysbysebu drwy gyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) drwy wefan GwerthwchiGymru. Adolygir y gwerth hwn bob yn ail flwyddyn, gyda'r adolygiad nesaf wedi ei drefnu ar gyfer 1 Ionawr 2018.

Mae cyfanswm o 5 gweithdrefn, ond gan amlaf bydd y brifysgol yn dilyn naill ai'r drefn gyfyngedig neu'r drefn agored. Mae'r brifysgol yn penderfynu ar y llwybr priodol i'w ddilyn yn dibynnu ar y gofyniad. Mae'r drefn gyfyngedig mewn dwy ran. Gall unrhyw barti sydd â diddordeb fynegi diddordeb mewn tendro, ond dim ond y rhai sy'n bodloni meini prawf dewis y



brifysgol neu sy'n ennill digon o farciau i fod ar restr fer fydd yn cael eu gwahodd i dendro. Gyda'r drefn agored gall pob cyflenwr sydd â diddordeb ymateb i'r hysbyseb trwy gyflwyno tender am y contract.

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID), sef catalog cyffredin o gwestiynau a phrosesau i'w defnyddio i ddewis cyflenwr yn ystod y broses gaffael.

Ar gyfer y prynwyr, mae'n darparu set o gwestiynau safonol a dull o ddewis y cwestiynau mwyaf priodol ar gyfer pob caffael unigol. Ar gyfer cyflenwyr, mae'n golygu i ddechrau eu bod yn gweld dull mwy safonol o weithredu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran dewis cyflenwr.

Ym mis Medi 2015, lanswyd y SQuID ar-lein sy'n golygu y gall atebion cyflenwyr i holiadur cyn-gymhwyso neu wahoddiad i dendro blaenorol gael eu cadw mewn cronfa ddata a gellir eu haildefnyddio ar gyfer sawl caffael (os defnyddir e-tenderwales). Mae hyn yn golygu bod y broses dendro wedi ei symleiddio ac yn arbed amser ac arian wrth leihau'r angen i ddarparu'r un wybodaeth bob tro y maent yn ymateb i gais am gaffael.

## **Dogfennau tendro**

Mae dogfennau tendro'r brifysgol yn ffordd o asesu gallu cyflenwr i ddarparu nwyddau/gwasanaethau/gwaith yn ogystal â bod y cais mwyaf economaidd. Mae gwahanol adrannau yn y dogfennau y mae'n rhaid i'r cyflenwr eu llenwi wrth wneud cais am contract prifysgol. Mae'r dogfennau'n cynnwys adrannau masnachol ac anfasnachol.

Fel rhan o'r broses o werthuso tendrau, pwysolir pob adran yn dibynnu ar y pwysigrwydd i'r contract. Mae manylion am bwysoliad y gwerthusiad yn y dogfennau tendro; mae hyn yn galluogi'r cyflenwyr i weld pa mor bwysig yw pob un o'r meini prawf i'r brifysgol.

I fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i gyflenwyr roi gymaint o wybodaeth â phosib ynghyd ag unrhyw dystiolaeth y gofynnwyd amdani. Mae'n rhaid i'r cais a gyflwynir hefyd ddilyn y ffurf a'r cyfarwyddiadau fel y nodir yn y dogfennau tendro.

Pan nad yw cyflenwr yn llenwi adran, neu ddim yn atodi'r dystiolaeth berthnasol ofynnol mae hyn yn golygu na all cael unrhyw farciau o dan y pennawd hwnnw. Felly gall cyflenwr fod o dan anfantais o ran uchafswm y marciau y gallant eu cael o gymharu â chyflenwr sydd wedi llenwi'r dogfennau yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

## **Tendro electronig**

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio cais e-fusnes i'w gweithgaredd tendro. Mae hwn yn wasanaeth a gynhelir drwy Bravo Solution a chaiff ei ddefnyddio mewn sawl achos wrth dendro gyda'r Brifysgol. Caiff y gwasanaeth ei archwilio ac mae'n gwbl ddiogel gyda desg gymorth bwrpasol i gyflenwyr os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.

<https://etenderwales.bravosolution.co.uk/home.html>

## **Cyngor ar sut i'w llenwi**

Isod ceir eglurhad am bob adran o'r ddogfen tendro, a'r hyn sy'n ofynnol gan gyflenwyr sy'n gwneud cais am fusnes y brifysgol.

### **Ffurf tendro**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwyr sy'n gwneud cais, adolygu a chytuno i delerau ac amodau'r brifysgol sy'n berthnasol i'r contract. Gofynnir i gyflenwyr ddarparu gwybodaeth orfodol am eu harferion busnes yn y gorffennol a llofnodi datganiad bod hyn yn gywir ac ni fu unrhyw gydgyllwynio gyda thrydydd parti.

Bydd peidio â llofnodi a llenwi'r adran yn golygu na fydd yr ymgeisydd yn gymwys i wneud cais.

### **Gwybodaeth Ariannol**

Mae'r brifysgol yn ymchwilio i statws credyd pob cwmni sy'n gwneud cais am gcontractau, a bydd hyn wedi ei nodi yn y dogfennau tendro. Yn ogystal, efallai gofynnir i gyflenwyr ddarparu gwybodaeth ariannol am eu gwerth masnachu yn y blynyddoedd diwethaf. Defnyddir y wybodaeth hon i asesu sefyllfa ariannol cwmni. Mewn contractau risg uchel lle gallai diffyg perfformiad arwain at golled ariannol sylweddol neu lle bo perfformiad gweithredol yn hanfodol, efallai y gofynnir i gyflenwyr gyflwyno Gwarant Rhiant-Gwmni neu Fond Perfformiad.

Bydd cyflenwyr weithiau yn methu â darparu'r wybodaeth ariannol yn y fformat gofynnol; mae hyn yn bennaf oherwydd dau reswm:

- 1) Mae'n rhaid i'r brifysgol gael y wybodaeth ariannol mewn sterling punnoedd Prydeinig (GBP), ond mae cyflenwyr yn dewis cyflwyno'r wybodaeth mewn arian cyfred arall.
- 2) Bydd cyflenwyr yn dewis anfon copi o'u cyfrifon llawn yn hytrach na llenwi dogfennau'r brifysgol.

Sylwer, ni dderbynnir arian cyfred arall a/neu gopiâu o gyfrifon llawn a bydd yn arwain at y cyflenwr yn cael sgôr o sero am yr adran hon.

### **Manylion Yswiriant**

Mae angen i'r brifysgol gael sicrwydd eu bod yn masnachu gyda chyflenwyr sydd â'r polisïau yswiriant a lefelau indemniad cywir yn eu lle. Gellir gofyn i gyflenwyr ddarparu cadarnhad o'u lefelau yswiriant nhw ac unrhyw isgcontractwyr. Gall y lefelau a mathau o yswiriant amrywio yn dibynnu ar ofyniad y brifysgol, a bydd y manylion hyn yn y dogfennau tendro. Bydd angen i Brifysgol Bangor gael tystiolaeth o fodolaeth y polisi yswiriant a gadarnheir cyn y dyfernir unrhyw contract. Bydd unrhyw gyflenwr nad yw'n gallu darparu tystiolaeth yn cael ei ddileu o'r tendr.

## **Sicrhau Ansawdd**

Ar gyfer contractau penodol yn cynnwys gwaith, gall fod yn ofynnol i gyflenwyr ddangos bod ganddynt ddulliau sicrhau ansawdd ac achrediadau yn eu lle. Gofynnir i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o'r tystysgrifau sydd ganddynt.

## **Cyfeiriadau**

Efallai y gofynnir i gyflenwyr ddarparu manylion am safleoedd cyfeirio, y gall y brifysgol benderfynu mynd i'w gweld mewn perthynas â'r gwasanaethau / nwyddau / gwaith yr ydych yn gwneud cais amdanynt. Efallai bydd y brifysgol eisiau gofyn cwestiynau ychwanegol i'r bobl gyswllt yn y safleoedd cyfeirio fydd wedi eu teilwra i anghenion y contract. Defnyddir yr atebion i asesu a oes gan y cwmni y sgiliau a'r galluoedd gofynnol i allu cyflenwi'r brifysgol.

## **Iechyd a Diogelwch**

Mae'n rhaid i'r brifysgol sicrhau bod y cyflenwyr a ddefnyddir yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Yn dibynnu ar y contract, efallai y bydd angen i gyflenwyr ateb cwestiynau ychwanegol mewn perthynas â gweithio ar eiddo'r brifysgol. Bydd yn ofynnol i gyflenwyr sy'n tendro am gontractau yn y Gwasanaethau Eiddo a Champws Iofnodi'r ddogfen Safonau Gwaith Contractwyr (rhowch y ddolen i'r ddogfen).

## **Cynaliadwyedd**

Mae cynaliadwyedd yn un o amcanion strategol allweddol y brifysgol ac felly mae amcanion cynaliadwyedd wedi'u cynnwys fel rhywbeth safonol yn y broses gaffael. Mae cynaliadwyedd yn cwmpasu materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ac anogir cyflenwyr i gynorthwyo'r brifysgol i wella perfformiad yn y meysydd hyn lle bo'n bosibl. Gellir gweld polisi cynaliadwyedd y brifysgol yma [https://www.bangor.ac.uk/eo/environment/documents/SUSPOL20142015\\_CYM.pdf](https://www.bangor.ac.uk/eo/environment/documents/SUSPOL20142015_CYM.pdf).

## **Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol a Chaethwasiaeth Fodern**

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i sicrhau nad oes achosion o gaethwasiaeth yn ei chadwyn cyflenwi. Fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, bydd y brifysgol yn cyhoeddi datganiad blynyddol yn disgrifio'r camau a gymerwyd i reoli a lleihau'r risg o gaethwasiaeth yn y gadwyn cyflenwi [Rhowch y ddolen]. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr hefyd gydymffurfio â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

## **Amrywiaeth a Chydraddoldeb**

Gofynnir i gyflenwyr lenwi'r adran hon o'r tender gan ei bod yn archwilio'r meysydd cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Nid yw'r brifysgol eisiau gwneud busnes gyda chyflenwyr sydd ddim yn trin pobl yn gyfartal. Mae'n rhaid i gyflenwyr gadw at god ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cyflogaeth neu safon berthnasol yn eu prosesau gwaith a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn holl ddogfennau

perthnasol y cwmni a bod ganddynt bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb neu Bolisi Cyfle Cyfartal.

### **Priodoldeb yr Ateb / Gwybodaeth Atodol**

Rhoddir manyleb i gyflenwyr i'w hadolygu. Yn dibynnu ar natur y contract, bydd y brifysgol naill ai'n chwilio am gadarnhad yn unig fod cyflenwr yn gallu cwrdd â gofynion y brifysgol, neu efallai y bydd angen cynnig manwl am sut mae'r cyflenwr yn bwriadu cydymffurfio â'r fanyleb. Yn dibynnu ar natur y contract, efallai y gofynnir i gyflenwyr ddarparu samplau o'u cynnyrch / a neu gael cyfweiliad i egluro eu cynnig.

### **Derbyn Tendrau**

Bydd yr ymateb tendro yn cynnwys dyddiad cau ac amser, os bydd cyflenwr yn cyflwyno tendr yn hwyr caiff ei wrthod ac ni fydd yn cael ei werthuso gan y brifysgol. Felly mae'n hanfodol bod yr ymateb tendro yn cael ei anfon ar amser ac i'r cyfeiriad cywir fel y nodir yn y ddogfen dendro.

### **Dyfarnu contract ac ôl-gyfarwyddo**

Caiff tendrau eu gwerthuso gan ddefnyddio meini prawf a bwysolir ymlaen llaw. Bydd y meini prawf yn cwmpasu'r adrannau o'r dogfennau tendro a nodir uchod yn ogystal â chost / pris. Bydd y meini prawf llawn wedi eu nodi'n fanwl yn y dogfennau tendro. Bydd pob cyflenwr yn cael gwybod a oeddent yn llwyddiannus ai peidio. O fewn cyfyngiadau cyfrinachedd masnachol, bydd y Cyngor bob amser yn ceisio cynnig adborth i gyflenwyr na fu'n llwyddiannus ynglŷn â pham y methodd eu cais. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i helpu unrhyw geisiadau yn y dyfodol. Nid yw bod yn aflwyddiannus mewn un contract yn golygu na fydd cyflenwr yn llwyddiannus mewn ceisiadau yn y dyfodol.

### **Cyflenwyr newydd**

Os ydych yn llwyddo i fod yn gyflenwr i'r brifysgol, gofynnir i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am y cwmni fel y gallwn eich talu. Yn benodol, bydd arnom angen y wybodaeth allweddol ganlynol:

- Manylion cyswllt
- Dewisiadau talu
- Math o gwmni

### **E-brynu ac E-anfonebu**

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Bangor yn defnyddio e-Marketplace a fydd yn caniatáu i'r brifysgol wneud trafodion electronig gyda chyflenwyr. Yr amcan yw gwella effeithlonrwydd a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses gaffael.

Mae'r brifysgol yn annog ei chyflenwyr i weithio gyda'r dechnoleg hon, hynny yw, derbyn archebion prynu electronig a dychwelyd anfonebau electronig. Bydd hyn yn golygu y caiff cyflenwyr eu talu'n gynt.

Gofynnir i rai cyflenwyr ddarparu catalogau electronig fel y gall y brifysgol gael profiad siopa gwell. Bydd y Tîm Caffael Corfforaethol yn ceisio gweithio gyda chyflenwyr sy'n fodlon derbyn y dechnoleg hon. Cewch ragor o wybodaeth yma <https://suppliers.basware.co.uk/>.

### **Cardiau prynu**

Gwneir rhai trafodion gan Brifysgol Bangor gyda cherdyn prynu Barclaycard. Mae'n gerdyn credyd y gellir ei ddefnyddio i dalu am nwyddau a gwasanaethau gwerth isel e.e. ffioedd cynadleddau a seminarau, costau llety, llogi cerbydau a phethau a phrynir un waith yn unig pan fo'r angen.

### **Rhoddion a lletygarwch**

Ni chaiff cyflenwyr posibl neu rai sydd eisoes yn gyflenwyr i'r Brifysgol roi neu gynnig unrhyw roddion neu ystyriaeth fel cymhelliad neu wobr i unrhyw weithiwr neu asiant y brifysgol. Bydd gweithred o'r fath yn cael yr effaith o negyddu holl gontractau cyfredol a rhai yn y dyfodol.

### **Cymorth Ychwanegol**

Gellir cael cymorth pellach am sut i ddefnyddio offer electronig a chysiau am sut i dendro oddi wrth Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/>

Tîm Caffael Corfforaethol Prifysgol Bangor  
Cae Derwen - Swyddfa Gyllid  
Ffordd y Coleg  
Bangor  
LL57 2DG.

Ffôn: 01248 382057/ 01248 388675  
E-bost: [procurement@bangor.ac.uk](mailto:procurement@bangor.ac.uk)  
<https://www.bangor.ac.uk/finance/pu/default.php.en>